Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd Nos Lun, Tachwedd 10fed 2014 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.

Presennol: Cynghorwyr Raymond Bartley, Margaret Bowe, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Brian Davies, Mark Young, Shereen Lunt, Catherine Jones, a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

Ymddiheuriadau: Gaynor Wood, Roy Tickle, Philip Stevens.

Arsylwi: Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Cadeiriwyd Pwyllgorau Cyllid a Materion Cyffredinol gan y Cyng Raymond Bartley gyda'r Cyng Margaret Bowe yn cadeirio'r Pwyllgor Cynllunio .

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

126. Datgan Diddordeb Personol: Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Shereen Devine - eitem agenda C1(11) - gohebiaeth - Heddlu Gogledd Cymru
(2) Cyng Colin L Hughes – eitem agenda B1(7) – Cyllid - Lwfans Cynghorwyr
(3) Cyng Geraint Williams – holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(4) Cyng Colin Hughes - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(5) Cyng Raymond Bartley - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych

A. <u>Pwyllgor Cynllunio:</u>

127. (1) **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio.**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) Co-op, Stryd fawr (2 gais)
(2) Heulfryn, Ffordd Eglwyswen.

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer y Forum, 27 - 29 Stryd Fawr (2 gais) cyfeiriwyd at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth CSDd ynglŷn ag ymweliad safle. Ar ôl ystyried ymhellach cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais cynllunio. Er hynny, tra ddim yn gwrthwynebu, cytunwyd i fynegi pryder ynglŷn â diffyg dihangfa dân o'r ystafelloedd llety a fwriedir ar lawr cyntaf ac ail lawr yr adeilad.

(2) Materion Cynllunio eraill: Nid oedd unrhyw fater arall.

B. <u>Pwyllgor Cyllid:</u>

128. Cyfrifon: 1. Cytunwyd i dalu'r cyfrifon canlynol a dderbyniwyd:

(1)	Apêl Pabi - Torch Pabi (rhif siec 005480)	-	£30.00
(2)	Catalyst Systems - problemmau e-bost a ffurfweddu (rhif siec 005481)	-	£52.80
(3)	Sodexo – cynnal a chadw Gardd Dr E P (Hydref) (rhif siec. 005482)	-	£605.88
(4)	Clerc y Dref – costau teithio (Llanelwy & Rhuthun x 2) (rhif siec 005483)	-	£19.03

(6)	CCTCGC - tâl aelodaeth 14/15 (rhif siec 005484)	-	£50.00
(7)	Clerc y Dref - ad-daliad costau adnewyddu batris torshis ar gyfer Noson tân gwyllt (rhif siec 005485)	-	£7.00
(8)	Cyng Colin L Hughes – lwfans cynghorwyr 2014/2015 (rhif siec 005486)	-	£100.00

Cyfanswm taliadau: £864.71

2. Nodwyd adroddiadau ariannol cyfnod **1.4.14 – 30.9.14**

3. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Nodwyd gyda diolch derbyn £3,000 oddi wrth Lock Stock sef arian noddi noson tân gwyllt

C. <u>Pwyllgor Materion Cyffredinol</u>:

129. Llythyron, E-byst a Hysbysiadau: (1) Penderfynwyd nodi pedair eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bod angen ar y canlynol:

(1) Cyfeiriwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth (a) Bobath Cymru, (b) Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, (c) Ford Gron Dinbych a'r Cylch, a (ch) Cadwyn Clwyd at yr is bwyllgor cymorthdaliadau.
(2) Caniatawyd y cais a dderbyniwyd oddi wrth Grŵp Busnes Dinbych am barcio di-dâl dydd Sadwrn Tachwedd 29ain ar achlysur dathliadau'r Nadolig.
(3) Clwb Bowlio'r Parc Isaf. Cytunwyd a'r cais am gyfarfod gyda'r cyngor tref. Y Cyng Colin L Hughes, Margaret Bowe, Rob Parkes a Medwyn Williams i gynrychioli'r cyngor tref.
(4) "Stwnsh" S4C. Cytunwyd a'r cais i gymryd rhan yn y gweithgareddau ar ddiwrnod troi'r goleuadau Nadolig ymlaen.
(5) Ystyriwyd yr e-byst a dderbyniwyd oddi wrth Angela Bryan a Kevin Ringer ynglŷn ag Ysgol Frongoch. Dywedwyd nad oedd hyn yn fater i'r cyngor tref. Cytunwyd yn unfrydol y dylai'r mater gael ei gyfeirio at y prifathro a llywodraethwyr yr ysgol neu yr Awdurdod Addysg.
(6) Cytunwyd delio a'r e-bost a dderbyniwyd oddi wrth yr Arolygydd Gareth Jones ynglŷn â gweithgaredd diweddar ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol o dan Ran 2 ar ddiwedd y cyfarfod.

130. Cofnodion / Adroddiadau Cyfarfodydd is bwyllgorau'r cyngor. Nid oedd unrhyw gofnodion / adroddiadau

131. Adroddiadau: <u>(1) Cyfarfod Clercod Tref</u>. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref. Ymhelaethodd clerc y dref ar un neu o faterion oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad. Mynegodd yr aelodau eu pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o gau safle amwynder Dinbych
<u>(2) Gefeillio.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref. Ymhelaethodd clerc y dref ar yr adroddiad.
<u>(3) Trefi Taclus.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Cyng Rob Parkes. Dywedwyd fod y tîm wedi gwneud gwaith ardderchog. Cadarnhaodd clerc y dref ei fod wedi gyrru e-bost yn cyfleu diolch y cyngor.
<u>(4) Cyfarfod Cyswllt Blynyddol gyda ChSDd.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

132. Ymgynghoriad ynglŷn â Chynigion Cyllideb CSDd. Eglurodd clerc y dref fod y cynigion wedi eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac y dylai'r cyngor tref ystyried y cynigion ac ymateb. Roedd Cynghorau Tref eraill yn ystyried y cynigion yn yr un modd ac yn ymateb. Derbyniwyd sylwadau (1) Y dylid fod yna gyfarfod rhwng CSDd a'r Cynghorau Tref – hefyd dylid fod Ymgynghoriad llawn a pherchnogaeth a rennir, (2) Roedd CSDd wedi rhoddi'r bai ar Lywodraeth Cymru - y Llywodraeth Ganolog oedd wedi achosi'r toriadau. Derbyniwyd nifer o sylwadau cyffredinol. Cadarnhawyd fod cynigion rhan un wedi eu cytuno gan gyngor llawn CSDd. Cytunwyd i edrych ar gynigion rhan 2 eitem wrth eitem. Derbyniwyd nifer o sylwadau ar sawl eitem oedd yn gynwysedig o fewn rhan 2. Cytunwyd i glerc y dref baratoi drafft ar yr hyn a gytunwyd a'i ddosbarthu i'r aelodau cyn ei gyflwyno i GSDd.

133. CCTCGC. Dywedwyd fod angen i'r cyngor tref apwyntio cynrychiolwyr i ddau o is bwyllgorau'r Ddolen Gyswllt. Cytunwyd fod y Cyng Raymond Bartley a Colin Hughes yn cynrychioli'r cyngor ar Grŵp Marchnata'r Ddolen Gyswllt a'r Cyng Colin L Hughes a Shereen Devine ar is bwyllgor Rali Geir y Ddolen Gyswllt.

134. Materion o Ddiddordeb: 1. Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau a chytunwyd gweithredu lle bo angen:

(1) Torrwyd y gwrych ar hyd Allt Brwcws ar hen ffordd Rhuthun yn ddiweddar a gadawyd y toriadau ar y llwybr troed - Y Cyng Bartley i ddilyn y mater i fyny.
(2) Bydd Rally GB yn defnyddio coedwigoedd Sir Ddinbych ac yn mynd drwy Ddinbych dydd Sul Tachwedd 16eg rhwng 10 y bore a hanner dydd.
(3) Nifer o warantoedd ynglŷn â chyffuriau wedi eu cymryd allan yn Ninbych.
(4) Gwaith ail-wynebu Parc Myddleton wedi dechrau.
(5) Cerbydau'n goryrru drwy'r Green.
(6) Gwaith paentio yn Neuadd y Dref wedi ei gwblhau.

Yn dilyn cwblhau' r busnes o dan Ran Dau ac nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 9 o'r gloch.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad:.....